# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 48
01/03/21

## Sacheus yn dringo coeden

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes Jacqueline Ashworth, Hannah Ashworth a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Aeth Iesu yn ei flaen i mewn i Jericho, ac roedd yn mynd drwy'r dref. Roedd dyn o'r enw Sacheus yn byw yno – Iddew oedd yn arolygwr yn adran casglu trethi Rhufain. Roedd yn ddyn hynod o gyfoethog. Roedd arno eisiau gweld Iesu, ond roedd yn ddyn byr ac yn methu ei weld am fod gormod o dyrfa o'i gwmpas. Rhedodd ymlaen a dringo coeden sycamorwydden oedd i lawr y ffordd lle roedd Iesu'n mynd, er mwyn gallu gweld.



Pan ddaeth Iesu at y goeden, edrychodd i fyny a dweud wrtho, “Sacheus, tyrd i lawr. Mae'n rhaid i mi ddod i dy dŷ di heddiw.” Dringodd Sacheus i lawr ar unwaith a rhoi croeso brwd i Iesu i'w dŷ. Doedd y bobl welodd hyn ddim yn hapus o gwbl! Roedden nhw'n cwyno a mwmblan, “Mae wedi mynd i aros i dŷ 'pechadur' – dyn ofnadwy!”

Ond dyma Sacheus yn dweud wrth Iesu, “Arglwydd, dw i'n mynd i roi hanner popeth sydd gen i i'r rhai sy'n dlawd. Ac os ydw i wedi twyllo pobl a chymryd mwy o drethi nag y dylwn i, tala i bedair gwaith cymaint yn ôl iddyn nhw.”

Meddai Iesu, “Mae'r bobl sy'n byw yma wedi gweld beth ydy achubiaeth heddiw. Mae'r dyn yma wedi dangos ei fod yn fab i Abraham. Dw i, Mab y Dyn, wedi dod i chwilio am y rhai sydd ar goll, i'w hachub nhw.”

*Luc 19:1-10 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Aeth Iesu i fewn i Jericho. Roedd llawer o bobl yno i weld Iesu. Roedd dyn o’r enw Sacheus yn byw yn Jericho. Dyn byr oedd Sacheus felly nid oedd yn gallu gweld Iesu o ganol y dyrfa. Dringodd Sacheus goeden gerllaw er mwyn gallu gweld Iesu. Pan ddaeth Iesu at y goeden edrychodd i fyny a gwelodd Sacheus. Dywedodd wrtho, “Tyrd i lawr Sacheus oherwydd rydw I’n eisau cael bwyd yn dy dŷ di heddiw.”



Roedd y bobl wedi gwylltio oherwydd roedd Sacheus yn ddyn drwg. Dywedodd Sacheus wrth Iesu, “Rwyf am roi hanner fy arian i helpu’r tlodion ac am dalu bedair gwaith cymaint yn ôl i’r bobl rwyf wedi eu twyllo.” Roedd y dyrfa wedi rhyfeddu a dywedodd Iesu wrth y bobl, “Wedi dod i chwilio am y rhai sydd ar goll ydw i - pobl fel Sacheus - i’w hachub nhw.”

# Cwestiynau i’w trafod



Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pa berson enwog fuaset ti’n hoffi ei gyfarfod?
2. Beth fuaset ti’n ei wneud pe baet ti’n clywed eu bod yn dod i dy dref neu bentref?
3. Sut wyt ti’n meddwl oedd Sacheus yn teimlo pan ddywedodd Iesu ei fod eisiau dod i’w dŷ?
4. Beth fuaset ti’n ei wneud i roi croeso i Iesu i'ch tŷ chi?

# Gweddi fer


O Dduw, diolch i Ti am dy fod yn fy ngharu i cymaint!
Diolch i Ti am anfon Iesu i’r byd i fod yn ffrind i ni.
Plîs helpa fi i roi croeso i Iesu i'm bywyd fel ffrind arbennig.
Amen.



# Stori i'w lliwio

# Sacheus yn dringo coeden

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Doedd Sacheus, y casglwr trethi, ddim yn ddyn gonest. Pan wnaeth o gyfarfod â Iesu fe wnaeth hynny ei newid ef a'r ffordd roedd yn ymddwyn.



Roedd gan Sacheus lawer iawn o arian, ond doedd o ddim yn ddyn clên. Ei waith oedd casglu a chyfnewid arian ac roedd yn cymryd mwy nag y dylsai.



Pan fyddai'n cymryd arian gan bobl byddai'n cymryd arian iddo ef ei hun hefyd. Doedd o ddim yn garedig. Doedd neb yn hoffi Sacheus.



Un diwrnod roedd Iesu am ymweld â'r dref ac roedd pawb eisiau ei weld. Roedd Sacheus yn rhy fychan i weld dros bennau'r bobl yn y dorf a doedd neb yn fodlon iddo gael mynd i'r blaen i weld Iesu.




Rhedodd yn ei flaen a dringodd goeden. Arhosodd i Iesu fynd heibio. O ben y goeden byddai'n gallu gweld Iesu.



Arhosodd Iesu o dan y goeden ac edrychodd i fyny. "Sacheus tyrd i lawr," meddai Iesu. "Rydw i am ddod i dy dŷ di heddiw."




Dywedodd y bobl, " Dydy Iesu ddim yn gwybod fod Sacheus yn ddyn drwg?" Meddai Iesu wrth Sacheus, "Gwna'r hyn sy'n dda ac yn gywir."



Roedd o'n edifar am gymryd arian y bobl. Talodd y cwbl yn ôl iddynt. "Rydw i'n caru Iesu," meddai Sacheus. "O hyn allan byddaf yn gwneud yr hyn sy'n dda ac yn gywir."

# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/jQ4VKBbI2AI



Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/xPGulP5ER-4





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=5DjibJFz2ug

# Gweddi Greadigol


## Gweddïau Jenga

- Chwaraewch Jenga.
- Siaradwch am fel y gall pethau dorri a sut i fynd ati i'w trwsio.
- Os fydd rhywbeth yn torri fyddi di'n ei drwsio? Mae pethau materol yn gallu torri ond yn ogystal â hyn gall teimladau a pherthnasau gael eu 'torri' hefyd. Os ydyn ni'n tynnu darn o'r Jenga o'r tŵr bydd yr adeilad yn gwanio ond os ydy'r blociau yn eu lle yn y drefn gywir bydd yr adeilad yn gryf a sefydlog.
- Mae ein perthynas ni â Iesu'n debyg i'r blociau yn y Jenga.
- Mae pob un ohonom yn torri ein perthynas â Iesu os ydyn ni'n gwneud pethau na ddylsen ni, ond pan ofynnwn am faddeuant mae ein perthynas ag ef yn cael ei thrwsio.
- Roedd perthynas Sacheus â'r bobl roedd wedi eu twyllo, wedi ei thorri ond trwsiodd Iesu'r berthynas doredig drwy ddangos i Sacheus fod Duw'n ei garu.




## Gweddi hofrennydd

Dringodd Sacheus goeden sycamorwydden er mwyn gallu gweld Iesu.
Mae'r sycamorwydden yn cynhyrchu hadau sy'n debyg i hofrennydd.




**Bydd angen:**
- Siâp yr hofrennydd fel sydd yn y llun ond yn mwy.
- Clip papur
- Pinnau ffelt

**Beth i'w wneud:**
- Torra siâp yr hofrennydd allan.
- Addurna un ochr i'r hofrennydd papur.
- Ysgrifenna weddi a gofynna i Dduw dy helpu i newid rhywbeth yn dy fywyd er gwell.
- Plyga un rhan o'r gynffon ymlaen a'r llall yn ôl.
- Rho glip papur yn sownd yn y trwyn.
- Gollwnga'r hofrennydd a gwylia fo'n troelli!



# Posau

## Geiriau o'r stori

Rho'r llythrennau yn y drefn gywir i ddod o hyd i'r geiriau.
Wedyn, defnyddia'r llythrennau yn y blychau melyn i ateb y cwestiwn ar y gwaelod.


DYMN _ _ _ _
CHORJEI _ _ _ _ _ _ _
DWELG _ _ _ _ _
GRONDI _ _ _ _ _ _
CARYSMODDYENW _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _
DDROFF _ _ _ _
USEI _ _ _ _
LAWGAD _ _ _ _ _ _
RUCHEPAD _ _ _ _ _ _ _
WENDI _ _ _ _ _



Ble eisteddodd Sacheus i weld Iesu? _ _ _ _   _ _ _ _ _ _ _


Fedri di helpu Sacheus i gyrraedd y coeden?





Fedri di ad-drefnu'r dail i ddod o hyd i'r adnod?

Dw i,
i'w hachub nhw.
wedi dod
Mab y dyn,
y rhai sydd
Luc 19 adnod 10
i chwilio am
ar goll,



# Crefft




## Sacheus Acrobataidd Yn y Goeden

**Byddi angen:**

Cerdyn gwyrdd a gwyn, glanhawr pibell, 2 welltyn plygedig, tâp selo, glud, siswrn, pensil, pinnau ffelt, pren mesur.






**1**. Llunia betryal 8cm x 3cm.



**2**. Gwna lun o Sacheus yn y petryal, ond paid â darlunio ei freichiau.




**3**. Plyga'r cerdyn yn ei hanner a thorra o gwmpas amlinelliad Sacheus. Yna fe fydd gen ti ffrynt a chefn iddo.




**4**. Gwna lun o gefn Sacheus.



**5**. Lliwia Sacheus. Lliwia ei gôt yr un lliw â'r glanhawr pibell.



**6**. Glyna'r glanhawr pibell yn sownd i gefn Sacheus â'r tâp selo, yn union ble dylai ei freichiau fod .



**7**. Gorchuddia'r darn arall o Sacheus â glud a gwasga'r ffrynt a'r cefn at ei gilydd yn gadarn.



**8**. Plyga'r glanhawr pibell uwchben Sacheus a gosoda'r bensil ar ei 'freichiau'.



**9**. Cordedda'r breichiau glanhawr pibell o gwmpas y bensil.




**10**. I wneud bôn y goeden plyga'r 2 welltyn a gwthia pen un i mewn i ben y llall. Rho dâp selo i'w dal yn eu lle.




**11**. Yn ofalus tynna Sacheus oddi ar y bensil a'i osod ar ganol y gwelltyn.



**12**. Ar gerdyn gwyrdd gwna lun brig y goeden.



**13**. Plyga'r cerdyn yn ei hanner a thorra'r siâp allan ac fe fydd gen ti ddwy frig coeden.



**14**. Glyna ddau ddarn sy'n cynrychioli brig y ddwy goeden,un bob ochr i'r 2 welltyn .



Gafaela yn y gwellt, un ymhob llaw a'u fflicio ymlaen a bydd Sacheus, yn chwyrlïo o gwmpas bôn y ddwy goeden fel acrobat!

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | Y | R | O | A | R | DD | D | R | I | NG | O |
| E | U | S | E | I | O | LL | Y | W | T | R | B |
| CH | G | O | G | A | L | C | A | S | G | L | U |
| C | O | E | D | E | N | I | R | U | I | A | CH |
| T | Y | R | F | A | D | H | W | E | D | W | A |
| Ŷ | O | F | D | J | E | R | I | CH | O | R | U |
| W | F | O | O | N | Y | W | C | A | LL | H | RH |
| U | N | S | D | E | U | A | I | S | I | E | U |
| TH | A | E | O | I | TH | E | R | T | D | DD | F |
| E | D | O | LL | DD | R | O | FF | E | Y | I | A |
| M | W | R | D | L | E | W | G | A | N | W | I |
| S | Y | C | A | M | O | R | W | Y | DD | E | N |

# Chwilair

| | |
|---|---|
| ACHUB | HEDDIW |
| BYR | IESU |
| CASGLU | JERICHO |
| COEDEN | LAWR |
| CROESO | METHU |
| CWYNO | OFNADWY |
| CYFOETHOG | RHEDEG |
| CHWILIO | RHUFAIN |
| DOD | SACHEUS |
| DRINGO | SYCAMORWYDDEN |
| DYN | TRETHI |
| EISIAU | TWYLLO |
| FFORDD | TŶ |
| GWELD | TYRFA |

# Sialensau

Sawl coeden wahanol fedri di ddod o hyd iddi?
Fedri di ddod o hyd i sycamorwydden?
Gwna rwbiadau o risgl gwahanol goed.



Defnyddia Lego i ail greu hanes Sacheus.



## Dringo coeden

Fe ddringodd Sacheus goeden er mwyn gweld Iesu.
**Gofynna am ganiatâd dy rieni** i ddringo coeden, ac gofynna iddynt i dy orchwylio'n gwneud hynny.
Bydd yn ofalus!

## Rhannu

Ar ôl i Iesu ddod i'w dŷ, roedd Sacheus eisiau rhannu hanner o bob dim oedd ganddo gyda phobl dlawd.
Y sialens i ti'r wythnos hon ydy rhannu hanner dy fferins (neu losin) gyda dy deulu!



# Gemau


## Gêm munud – ceiniogau



**Byddi angen:**
- Digonedd o ddarnau ceiniog (o leia' 30)
- Amserydd munud, fel ffôn

**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn cael un munud i wneud pentwr cyn uched â phosib gyda'r ceiniogau.
- Dim ond un llaw gaiff y chwaraewr ei defnyddio a bydd rhaid iddo roi'r law arall y tu ôl i'w gefn.

## Her yr hosan!




**Byddi angen:**
- Papurau 'post-it'
- Pin ffelt
- Hosan wedi ei gwneud yn belen

**Sut i chwarae:**
- Ysgrifenna enw Sacheus gan roi un lythyren ar y papurau 'post-it.'
- Gosoda'r llythrennau yma ac acw ar ddrws.
- Mae pob chwaraewr yn cymryd ei dro i daflu'r hosan at y papurau i sillafu enw Sacheus.
- Cyfra sawl gwaith y bydd pob chwaraewr wedi taflu'r hosan.
- Yr enillydd ydy'r chwaraewr sy'n llwyddo i sillafu enw Sacheus trwy daflu'r hosan y nifer lleiaf o droeon.

# Canu

Roedd 'na ddyn bach, bach yn glynu wrth gangen.
Er fod ganddo lawer o arian, roedd o mewn angen.
Roedd eisiau gweld Iesu ond roedd torf ar ei ffordd
Dringodd goeden i gael cip o'r un yr oedd am gwrdd.

Wrth i'r dyn bach, bach eistedd wrth y nen
Roedd ei aros anghyfforddus ar fin dod i ben.
Cododd sŵn uchel o'r dorf – dyna fonllef fawr!
Edrychodd lawr y ffordd a dyna Iesu'n dod yn awr.

Tra roedd dyn bach, bach yn ei sedd mor anghyfleus,
Stopiodd Iesu yno a dywedodd, "Hei Sacheus!
Rwyf wedi penderfynu dod i dy dŷ di.
Tyrd i lawr ar unwaith. Fyddi di'n gwneud te i mi?"

Yn nhŷ'r dyn bach, bach - mae'r dorf ymhell ar ôl -
Dywedodd Sacheus, "Dwi wedi bod mor ffôl.
Rhoddaf hanner fy arian i ffwrdd, a dwi'n ymddiheuro
a thalaf bedair gwaith yn ôl i'r rhai dwi wedi'u twyllo."

O am newid yn Sacheus – wedi mynd mae'i fywyd trist;
Daeth newid o'r tu mewn yn dilyn cwrdd â Iesu Grist.
Os gall trawsnewid ddod i rywun cynddrwg ag ef,
Gall Iesu ddod â pherthynas dda i bob un â Duw Dad
yn y nef.

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/xPGulP5ER-4

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org